OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 No. 2888

## Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999

### Enwi, cychwyn, hyd a lled a darpariaeth drosiannol

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 1 Medi 1999.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac, mewn perthynas â'r athrawon ysgol hynny, daw effaith Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) 1991(**1**) ("Rheoliadau 1991") i ben.

(3) Bydd i unrhyw beth a wnaed cyn 1 Medi 1999 gan neu mewn perthynas ag athro o dan unrhyw ddarpariaeth a gynhwyswyd yn Rheoliadau 1991 effaith, ar y dyddiad hwnnw, fel pe bai wedi'i wneud o dan y darpariaethau cyfatebol yn y Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1991/1511.